



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEOLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEOL

Adolygiad Blynyddol 2016-17



Cynnwys

01

Croeso'r Llywydd

02

Adolygiad y Prif
Weithredwr

03

Ein Nodau

04

Dathlu ac Ysbrydoli

07

Cymrodyr a Etholwyd
yn 2017

10

Cydnabyddiaeth a
Pherthnasedd

12

Hyrwyddo Ymchwil

14

Hyrwyddo Dysg
ac Ysgolheictod

16

Cymru, y DU ac Ewrop

17

Cyngor Annibynnol

18

Adolygiad Ariannol

19

Llywodraethu

20

Cipolwg ar y
Gymrodoriaeth



Croeso'r Llywydd

Blwyddyn o gyflawni cadarn i'r Gymdeithas Ddysgedig

Caiff yr academi genedlaethol ei chydabod yn gynyddol yng Nghymru a thu hwnt. Gydag ethol 44 o Gymrodr y mae cyfanswm nifer y Gymrodoriaeth bellach **dros 460**. Etholwyd yr **Athro Mary McAleese** a'r **Arglwydd Stewart Sutherland** yn Gymrodr yr Anrhydedd. Edrychwn ymlaen at glywed eu darlithoedd pan gânt eu cyflwyno'n fffurfiol.

Mae ein diben yn syml - 'dathlu ysgolheictod a gwasanaethu'r genedl'. Rydym ni wedi dadlau achos ymchwil ar bob cyfle a phryd bynnag y teimlwn y caiff ei werthfawrogi. Mae'r pwyslais ar addysg ac annog buddsoddi mewn ymchwil yn sylfaenol i ffyniant Cymru yn y dyfodol, ac mae'r sector addysg uwch yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi Cymru ac yn benodol i gryfhau capasiti ymchwil Cymru yn y dyfodol. Mae meithrin sail sgiliau, denu buddsoddiad, a meithrin arloesi yn rhagofynion ar gyfer gwlad ar ffin orllewinol Ewrop, ac mae hynny'n fwy gwir fyth ar ôl Brexit.

Rydym ni wedi hyrwyddo ansawdd ymchwil yng Nghymru, o fewn a'r tu hwnt i'r genedl, ac wedi cyfathrebu lwyddiant ein hysgolheictod yn eang. Cynyddwyd ein portffolio o fedalau o bump gydag ychwanegu medal Hugh Owen ar gyfer ymchwil mewn addysg. Mae cydnabod talent a llwyddiant yn hanfodol ar gyfer ysbrydoli academyddion ifanc ac ieuencid, gan ddangos yr hyn sy'n bosibl pan gaiff gallu ei gydnabod, ei feithrin a chyfle. Eleni eto rydym ni wedi cyflwyno darlithoedd a digwyddiadau ar draws Cymru er budd Cymrodr a'r cyhoedd, ac rydym wrthi'n datblygu ein cyswllt gydag ysgolion. Rydym ni wedi gwneud llawer o gyflwyniadau ar ran y Gymrodoriaeth, gyda'r manylion i'w gweld

ar wefan y Gymdeithas. Mae ein barn i'w gweld yn cael ei gwerthfawrogi a'i cheisio'n gynyddol. Mae gweithio'n adeiladol gyda llywodraethau a deddfwrfeydd, a chadw ein hannibyniaeth, yn profi'n fuddiol. Cryfhawyd ein cydweithio gydag academiâu sefydledig Ynysoedd Prydain, i raddau helaeth drwy fffurfio ymateb cyffredin i ganlyniadau Brexit. Aiff y rhain y tu hwnt i gyllido, symud staff a myfyrwyr a chydweithio ar ymchwil. Mae Brexit yn codi cwestiynau cyfansoddiadol pwysig ac rydym ni am dynnu sylw atynt. Mae agwedd y Gymdeithas yn un sy'n edrych allan, a gyda'n chwaer academiâu rydym ni'n ymwneud â gwaith ALLEA, cymdeithas academiâu cenedlaethol Ewrop.

Fodd bynnag ein hadnodd mwyaf yw Ein Cymrodoriaeth. Po fwyaf o Gymrodr sy'n rhan o'r gwaith, y mwyaf y gallwn ni ei gyflawni. Bydd hyn yn arbennig o wir os, fel rydym ni'n ei fwriadu, byddwn yn ehangu ein gweithgareddau mewn ysgolion.

Rwyf i'n ddyledus i bawb a wasanaethodd y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y Cymrodr hynny sy'n eistedd ar amrywiol bwyllgorau a phaneli, ac i'r Athro Peter Halligan a'i gydweithwyr sydd wedi gwneud cymaint dros eich Cymdeithas unwaith eto eleni. Diolch.



Syr Emyr Jones Parry
Llywydd

Adolygiad y Prif Weithredwr

Cynnal cynnydd mewn cyfnod ansicr.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i chwarae rhan gynyddol a phwysig yng nghymdeithas Cymru ac yn bodloni ei Siarter Brenhinol drwy "*ddatblygu dysg a gwybodaeth a hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt*".

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Gymdeithas wedi parhau i gryfhau ei pherthynas gyda'i chwaer academaïau cenedlaethol yn y DU, ac yn benodol gydag academaïau yn Ewrop. Ym mis Awst 2016 ymgorfforwyd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn ffurfiol yn Elusen Siarter Brenhinol gan y Comisiwn Elusennau.

Gyda'i nod o ddathlu ysgolheictod a gwasanaethu'r genedl, mae'r Gymdeithas wedi hybu ansawdd ymchwil yn ddiwyd yng Nghymru, o fewn a'r tu hwnt i'r genedl. Gall y Gymdeithas wneud hyn ar ran y sector, yn aml mewn ffyrdd sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl i sefydliadau academaidd unigol. Mae cydnabod talent yn parhau'n amcan pwysig i'r Gymdeithas ac mae ein portffolio cynyddol o fedalau'n tanlinellu ymrwymiad y Gymdeithas i anrhydeddu rhagoriaeth ymhlith ymchwilwyr STEM, benywaidd a gyrfa gynnar.

Bu'r Gymdeithas yn cydweithio'n agos gydag academaïau sefydledig eraill yn Ynysoedd Prydain ac yn dilyn canlyniadau refferendwm Brexit mae wedi gwneud sawl sylw ar y cyd ar bynciau fel pwysigrwydd cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwil. Yn 2016, cefnogodd y Gymdeithas dri digwyddiad yng **Ngŵyl Gwyddoniaeth Prydain** oedd yn llwyddiant

mawr ym Mhrifysgol Abertawe, ymunodd â'r **Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianeg (CaSE)** fel aelod sefydliadol a threfnodd ar gyfer cyhoeddi erthygl nodweddiad ar yr ymchwil sydd ar gynydd yng Nghymru yn **SCIENCE**, un o'r cyfnodolion gwyddonol gorau.

Yn dilyn model **Cymdeithas Frenhinol Caeredin** gyda Chrwsibl yr Alban, mae'r Gymdeithas yn yr un modd yn cyfrannu at werthuso a dethol ymgeiswyr posibl ar gyfer Crwsibl Cymru, a cheisiadau grant cystadleuol dilynol i gronfa Crwsibl Cymru. Eleni hefyd cyhoeddodd y Gymdeithas a Chrwsibl Cymru **Wobr Crwsibl Cymru** a gaiff ei dyfarnu i'r gorau o blith y prosiectau ymchwil sydd wedi'u cwblhau.

Ym mis Mawrth 2017 cytunodd y Cyngor bod angen adolygu a datblygu cynllun busnes strategol newydd ar gyfer y pum mlynedd yn dilyn 2018. Fel rhan o'r gwaith paratoi, mae'r Gymdeithas wedi comisiynu corff annibynnol i gynnal cyfres o gyfweiliadau ac arolygon yn edrych ar ganfyddiadau allanol o'r sefydliad fydd yn caniatáu i farn rhanddeiliaid lywio a siapio'r strategaeth pum mlynedd nesaf.

Wrth edrych ymlaen, un amcan allweddol sy'n parhau yw sicrhau bod y gymdeithas yn gynaliadwy'n ariannol, a maes o law ailenwi'r gymdeithas yn **Royal Society of Wales / Cymdeithas Frenhinol Cymru**.



Yr Athro Peter Halligan
Prif Weithredwr

Ein Nodau

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n chwarae rhan bwysig a chynyddol yng nghymdeithas Cymru, gan weithio i ddatblygu addysg, dysg, astudiaethau academiaidd a gwybodaeth, er mwyn cyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n unigryw yn y DU ac yn nodedig yn rhyngwladol yn sgil ehangder ei Chymrodoriaeth, sy'n amrywio ar draws y gwyddorau, meddygaeth, peirianneg, y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau, y dyniaethau, busnes a gwasanaeth cyhoeddus.

Cryfderau'r Academi yw ei Chymrodoriaeth, ei Hysgrifenyddiaeth ymroddedig a'r partneriaethau a ffurfiwyd ar draws amrywiol randdeiliaid gan gynnwys prifysgolion, busnesau, diwydiant a'r llywodraeth.

Ers ei sefydlu yn 2010, mae cymhelliant arweiniol y Gymdeithas wedi'i fynegi mewn tair Cenhadaeth graidd:

- ▶ dathlu, cydnabod, cadw, diogelu ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, ac yn y proffesiynau, diwydiant a masnach, y celfyddydau a gwasanaeth cyhoeddus;
- ▶ hyrwyddo datblygiad dysg ac ysgolheictod a rhannu a chymhwyso canlyniadau ymholi ac ymchwil academiaidd; a
- ▶ gweithredu fel ffynhonnell o gyngor a sylwadau ysgolheigaidd annibynnol ac arbenigol ar faterion sy'n effeithio ar les Cymru a'i phobl a datblygu'r drafodaeth gyhoeddus a rhingweithio ar faterion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Roedd y Cynllun Strategol pum mlynedd diwethaf a fabwysiadwyd ym mis Mai 2014 yn blaenoriaethu gweithgareddau "dyheadol ac uchelgeisiol" oedd hefyd yn "realistig a chyraeddadwy".

Mae'r Gymdeithas wedi cymryd y camau canlynol i wireddu'r uchelgais hwn:

- ▶ Cynyddu'r ysgrifenyddiaeth i bum aelod o staff (4.3 CALI) i helpu i gyflawni cenhadaeth y Gymdeithas
- ▶ Cefngi a threfnu dros 100 o ddigwyddiadau sydd wedi cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ar draws Cymru
- ▶ Sicrhau cyllid parhaus o bob un o wyth prifysgol Cymru
- ▶ Cyflawni statws Elusen Siarter Brenhinol
- ▶ Datblygu amrywiaeth o fedalau i gydnabod ymchwilwyr rhagorol yn gysylltiedig â Chymru
- ▶ Cryfhau ei pherthynas ag academiâu cenedlaethol eraill yn y DU ac Ewrop
- ▶ Ers 2013/14, cafwyd cynnydd o 50% yn nifer y Cymrodryr benywaidd i fod yn fwy cynrychioliadol o ran cydbwysedd rhywedd

Dathlu ac Ysbrydoli



Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas

Mae'r medalau y Gymdeithas yn cydnabod rhagoriaeth academiaidd, a hefyd yn adennill ac yn hyrwyddo treftadaeth hir o lwyddiant Cymreig. ▶

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn lansio'r fedal Hugh Owen ym Mhrifysgol Aberystwyth



Dyfarfwyd pum **Medal Menelaus** mewn peirianeg a thechnoleg (gyda chefnogaeth SWIET2007)



Dyfarfwyd ail **Fedal Frances Hoggan** ar gyfer ymchwilwyr benywaidd rhagorol ym meysydd STEM (noddir gan Llywodraeth Cymru)



Dyfarfodd y Gymdeithas dair **Medal Dillwyn** am y tro cyntaf (gyda chefnogaeth Airbus) i ymchwilwyr gyrfa gynnar ym meysydd STEM, y celfyddydau a'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.



Enwir Medal gyntaf **Hugh Owen**, am ymchwil addysgol rhagorol, er anrhydedd i Syr Hugh Owen (1804-1881), yr addysgwyr, dyngarwr ac arloeswr addysg uwch o Gymru (noddir gan Llywodraeth Cymru)

Lawnswyd y fedal **Hugh Owen** gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ym mis Tachwedd 2016. Dyfarfwyd y medal eleni i'r Athro Chris Taylor o Brifysgol Caerdydd, i gydnabod ei gyfraniad eithriadol i ymchwil addysgol – ymchwil sydd nid yn unig yn arloesol yn fethodolegol ond sydd hefyd wedi llywio datblygiad polisïau addysg allweddol yng Nghymru. Dywedodd yr Athro Taylor "Mae'n anrhydedd cael derbyn y Fedal Hugh Owen gyntaf gan y Gymdeithas Ddysgedig. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil yn system addysg Cymru. Heb hyn ni allwn fod yn hyderus bod ein polisïau a'n harferion yn mynd i'r afael â'r materion cywir neu'n sicrhau canlyniadau effeithiol."

Dyfarfwyd **medal STEM Dillwyn** i Dr Rachel Evans, darlithydd yn Adran Gwyddorau Deunyddiau a Meteleg ym Mhrifysgol Caergrawnt. Defnyddir y deunyddiau ffootweithredol newydd

a gynllunnir yn ei labordy i wella effeithiolrwydd celloedd solar, datblygu llwyfannau synhwyro clyfar ar gyfer biddiagnosteg a sicrhau diogelwch bwyd, a datblygu meinweoedd ymatebol i wella ansawdd dŵr a thynnu llygryddion, gan gyflenwi buddion cadarnhaol i gymdeithas drwy ddatblygiadau technolegol.

Dyfarfwyd Medal Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Busnes Dillwyn i Dr Rhiannon Evans, Uwch-ddarlithydd yng Nghanolfan DECIPHer, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc, gan gynnwys hunan-anafu ac atal hunanladdiad.

Enillydd Medal y Celfyddydau Creadigol a'r Dyniaethau Dillwyn oedd Dr Amanda Rogers, Uwch-ddarlithydd mewn Daearyddiaeth Dynol ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n ymchwilio i'r celfyddydau ▶



O'r chwith: Dr Amanda Rogers, Dr Rachel Evans, Syr Emyr Jones Parry, Dr Rhiannon Evans, and Yr Athro Chris Taylor

perfformio, yn benodol y theatr. Mae ei gwaith hyd yma wedi edrych ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydaddoldeb, gan ddadansoddi mudo perfformwyr yn rhyngwladol. Mae ei hymchwil cyfredol yn canolbwyntio ar adfywio celfyddydau Cambodia ar ôl hil-laddiad y Khmer Rouge.

Dyweddodd Syr Emyr Jones Parry, Llywydd y Gymdeithas

“On’d yw hi’n beth da gweld y fath dalent o Gymru? Gadewch i ni groesawu’r gydnabyddiaeth a llongyfarch yr enillwyr. Mae’n wych gweld ymchwilwyr gyrfa gynnwys benywaidd yn cael cydnabyddiaeth gyda’n Medalau Dillwyn, sy’n briodol iawn o ystyried arloesedd Mary, Thereza ac Amy Dillwyn.”

Dyfarwyd yr ail **fedal Hoggan** i’r Athro Anita Thapar CBE, o Brifysgol Caerdydd am ei hymchwil mewn seiciatreg plant a glasod. “Mae derbyn y dyfarniad hwn yn anrhydedd enfawr” dywedodd yr Athro Thapar. “Mae fy ngwaith gwyddonol wedi elwa’n fawr iawn dros y blynyddoedd o gydweithio gyda chydweithwyr rhagorol. Mae llawer o’r rhain wedi bod yn wyddonwyr benywaidd ifanc – felly gobeithio y bydd y wobwr hon yn ysbrydoliaeth iddyn nhw.”

Dyferwyd **medal Menelaus** i’r Athro Graham Hutchings, Athro Regius Cemeg Ffisegol ym Mhrifysgol Caerdydd. Dywedodd “*Mae fy ngwaith ym maes catalysis wedi’i anelu’n bennaf at gynllunio technolegau newydd mewn cydweithrediad â diwydiant. Yn ddiweddar galluogodd ein gwaith i aur gael ei ddefnyddio fel catalydd newydd yn lle catalydd arian byw sy’n llygru mewn gweithgynhyrchu finyl clorid ac rwy’n gobeithio y bydd buddiannau i gymdeithas yn gyffredinol yn deillio o hyn. Mae’n anrhydedd i mi dderbyn Medal Menelaus y Gymdeithas Ddysgedig.*”

Cymrodyr a Etholwyd yn 2017

A ninnau bellach yn y seithfed flwyddyn mewn proses dreigl, mae Etholiadau Cymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2017 yn parhau i adeiladu Cymrodoriaeth gref, gynrychioliadol.

Drwy broses drylwyr bum cam, bydd ffocws diwro'r Gymdeithas ar ragoriaeth a chyflawniad yn sicrhau bod y Gymrodoriaeth yn cynrychioli'r gorau yn y prif ddisgyblaethau academaidd. Mae Cymrodyr newydd yn nodedig nid yn unig am eu llwyddiannau unigol, ond hefyd fel ffigurau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol yng nghymdeithas Cymru.

Cymrodyr er Anrhydedd

**Yr Athro Mary McAleese MRIA FRCS
FRCA FRCP FRSA FRSE FRCM HonFLSW**
Yn flaenorol, Arlywydd Iwerddon; Dirprwy
Is-Ganghellor, Prifysgol Queen's Belfast;
Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau
Cyfreithiol Proffesiynol; Athro Reid mewn
Cyfraith Droseddol, Troseddeg a Phenydeg,
Coleg y Drindod Dulyn

**Arglwydd Stewart Sutherland o
Houndwood KT FBA FRSE HonFLSW**
Yn flaenorol, Llywydd Cymdeithas
Frenhinol Caeredin; Is-Ganghellor
Prifysgol Caeredin

Cymrodyr

Yr Athro Roger Ainsworth FRAeS FLSW
Meistr Coleg St Catherine's, Dirprwy
Is-Ganghellor, ac Athro Gwyddor
Peirianneg, Prifysgol Rhydychen

Yr Athro Peter Barry FEA FLSW
Athro Emeritws Saesneg, Prifysgol
Aberystwyth

Dr Richard Bevins FGS FAS FLSW
Cyd-gyfarwyddwr Dros Dro (Casgliadau ac
Ymchwil) a Cheidwad Gwyddorau Naturiol,
Amgueddfa Cymru

**Yr Athro Stephen Brown FICME
FIMMM FLSW**
Pennaeth y Coleg Peirianneg,
Prifysgol Abertawe

Yr Athro Alan Bull FRSB FRSA FIIB FLSW
Athro Emeritws, Prifysgol Caint

**Yr Athro Richard Catlow FRSC FInstP
FRS FLSW**
Athro Cemeg, Prifysgol Caerdydd
a Choleg y Brifysgol Llundain

Dr Jasmine Donahaye FLSW
Athro Cyswllt Ysgrifennu Creadigol,
Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Christopher Evans FRSC
FRCPATH FIOR FLSW**
Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil
Meddygaeth Adferol Clinig Mayo;
Athro Llawfeddygaeth Orthopaedig,
Ysgol Meddygaeth Mayo; Athro
Meddygaeth Ffisegol ac Adferol Ysgol
Meddygaeth Mayo



Yr Athro Haley Gomez FRAS FLSW
Athro Astroffiseg, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Roy Goodacre FLSW
Athro Cemeg Fiolegol, Yr Ysgol Cemeg,
Prifysgol Manceinion

Yr Athro Ian Hall FLSW
Pennaeth Ysgol ac Athro Ymchwil, Ysgol
Gwyddorau Daera a Chefnfor

**Yr Athro John Hartley AM FAHA FRSA
FLSW**
Athro Nodedig John Curtin, Prifysgol
Curtin, Gorllewin Awstralia; a Chymrawd
Ymchwil Ymweliadol Nodedig, Ysgol
Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac
Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol
Caerdydd

Yr Athro Andrew Henley FLSW
Athro Entrepreneuriaeth ac Economeg,
Prifysgol Caerdydd

Dr Mari Jones FLSW
Darllenydd mewn Ieithyddiaeth Ffrengig
a Newid Iaith, Prifysgol Caergrawnt

Yr Athro Diane Kelly FRSB FLSW
Athro Microbiolog, Athrofa Gwyddorau
Bywyd, Ysgol Meddygaeth Prifysgol
Abertawe

Yr Athro Ruth King FLSW
Deiliad Cadair Ystadegau Thomas Bayes,
Prifysgol Caeredin

Yr Athro Binliang Lin FCIWEM FLSW
Athro / Athro Arup, Prifysgol Caerdydd /
Prifysgol Tsinghua

Yr Athro Christopher Meredith FLSW
Athro Emeritws Ysgrifennu Creadigol,
Prifysgol De Cymru

Professor Iwan Morus FLSW
Professor of History, Department of
History & Welsh History, Aberystwyth
University

Yr Athro Helen Nicholson FRHistS FLSW
Athro Hanes Canoloesol, Ysgol Hanes,
Archeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Robert Pickard FRSB FRSM FLSW
Athro Emeritws Niwrobiolog, Prifysgol
Caerdydd; Ymddiriedolwr Amgueddfa
Genedlaethol Cymru

Yr Athro Loredana Polezzi FLSW
Athro Astudiaethau Cyfieithu, Dirprwy
Bennaeth Ysgol a Chyfarwyddwr Ymchwil,
Ysgol Ieithoedd Modern, Prifysgol
Caerdydd

Yr Athro Sally Power FLSW
Cyfarwyddwr, addysg WISERD, Cyd-
gyfarwyddwr WISERD, Athro Ysgol y
Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol
Caerdydd

Yr Athro David Price FRSB FLSW
Athro Haint ac Imiwnedd, Ysgol
Meddygaeth Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Richard Rathbone FRHistS FLSW
Athro Er Anrhydedd, adran Hanes, Prifysgol
Aberystwyth; Athro Emeritws Hanes a
Chydymaith Ymchwil Athrofaol yn Ysgol
Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd
Prifysgol Llundain

Yr Athro Neil Reeve FLSW
Athro Saesneg, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Philip Routledge OBE MD FRCP
FRCPE FBTS FRSB FACadMed HonFRCGP
HonFFPM HonFBPhS FLSW**
Athro Ffarmacoleg Glinigol, Ysgol
Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd;
Ymgynghorydd er Anrhydedd Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyfarwyddwr
Clinigol Therapiwteg a Thocsicoleg
Cyfarwyddiaeth Glinigol/Canolfan
Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru

Syr Evan Paul Silk KCB FLSW
Llywydd, Grŵp Astudio'r Senedd;
Cydymaith, Global Partners Governance;
Athro Er Anrhydedd, Canolfan
Llywodraethiant Cymru, Prifysgol
Caerdydd; yn flaenorol, Cadeirydd,
Comisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli
i Gymru

Yr Athro Helen Snooks FLSW
Athro Ymchwil Gwyddorau Iechyd,
Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Alayne Street-Perrott FRGS
FLSW**
Athro Emeritws Daearyddiaeth Ffisegol,
Prifysgol Abertawe

Yr Athro Julia Thomas FLSW
Athro Llenyddiaeth Saesneg, Ysgol
Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth,
Prifysgol Caerdydd

Yr Athro David Tozer FLSW
Athro Cemeg Ddamcaniaethol,
Prifysgol Durham

**Yr Athro Elizabeth Treasure FRACDS
FDSRCS FFPH FDSRCPS FLSW**
Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth ac

yn flaenorol Rhag Is-Ganghellor, Prifysgol
Caerdydd

Yr Athro Marcela Votruba FRCOphth FLSW
Pennaeth Ysgol Optometreg a
Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Caerdydd
ac Ymgynghorydd Er Anrhydedd mewn
Offthalmoleg, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Yr Athro Damian Walford Davies FLSW
Athro Llenyddiaeth Saesneg a Phennaeth
yr Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac
Athroniaeth, Prifysgol Caerdydd

Dr Catrin Haf Williams FLSW
Darllenydd mewn Astudiaethau Testament
Newydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi
Sant

Dr Olwen Williams OBE FRCP FLSW
Meddyg Ymgynghorol – Iechyd Rhyw
ac HIV Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Yr Athro Howard Williams FLSW
Athro Emeritws, Prifysgol Aberystwyth,
Athro Er Anrhydedd Nodedig, Prifysgol
Caerdydd

Yr Athro Christopher Wood FRCSEd FLSW
Cadeirydd Gweithredol, Nucana Ltd

Yr Athro Michael Woods FLSW
Athro Daearyddiaeth Ddynol ac Athro
Gwyddorau Cymdeithasol Trawsnewidiol,
Prifysgol Aberystwyth

Yr Athro David Worsley FIMMM FLSW
Cyfarwyddwr Ymchwil a Dirprwy Bennaeth
y Coleg Peirianeg, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Michael Zaworotko FRSC FICI
FAAAS FLSW**
Deiliad Cadair Bernal mewn Peirianeg
Grisial ac Athro Ymchwil Sefydliad
Gwyddoniaeth Iwerddon, Prifysgol
Limerick



Cydnabyddiaeth a Pherthnasedd

Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Gymdeithas, mae'r Gymdeithas wedi cynyddu ei heffaith cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddangos ei gwerth fel llais dros Gymru sy'n annibynnol a dylanwadol ac sy'n cael ei parchu.

Adolygiad Diamond

Ym mis Hydref 2016 croesawodd y Gymdeithas gyhoeddi'r Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru gan Syr Ian Diamond a'i gydweithwyr. Gan gydnabod bod y model ffi-grant cyfredol o gefnogi myfyrwyr sy'n huanu o Gymru yn anghynnaladwy, cyflwynodd y Gymdeithas adroddiad manwl a thystiolaeth i Banel Diamond ym mis Ionawr 2015, yn amlgy pwsigrwydd cefnogaeth ddigonol i fyfyrwyr, a dadlau y dylid mynd i'r afael â thangyllido hanesyddol yn y sector AU yng Nghymru.

Croesawodd y Gymdeithas argymhelliad yr Adolygiad i gyflwyno grantiau cynhaliadaeth â phrawf modd i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru, a'r ymrwymiad y dylid cyllido sefydliadau sy'n darparu addysg uwch ar lefel sy'n eu galluogi i wneud gwaith addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, yn unol â'u cryfderau, eu harbenigeddau a'u cenadaethau penodol.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod bod y Gymdeithas "yn ychwanegiad i'w groesawu i dirwedd ddeallusol Cymru, yn enwedig oherwydd ei Chymrodoriaeth aml-ddisgyblaethol ac amlsector" gan bwysleisio bod rhaid i economïau llwyddiannus sy'n seiliedig ar wybodaeth "fanteisio ar yr aelodau mwyaf dawnus o'u cymdeithas i roi cyngor; herio a thrafod, yn debyg i gymdeithasau dysgedig fel y Royal Society of Edinburgh neu'r Royal Society of London".

Wrth sôn am rôl y Gymdeithas Ddysgedig, aiff yr Adolygiad yn ei flaen: "Credwn fod ganddi'r potensial i ddatblygu i fod yn adnodd gwirioneddol ar gyfer a) gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn â gwyddoniaeth ac ysgogi a chyfrannu at drafodaethau ac ymgysylltiad y cyhoedd mewn perthynas â materion cyfoes allweddol; b) cyfrannu at ddatblygiad 'pŵer meddal' Cymru drwy hyrwyddo rhwydweithiau rhyngwladol o ddi-ddordeb yn sefydliadau, diwylliant a gwerthoedd Cymru; c) ysbrydoli a chefnogi doniau >

“

...yn ychwanegiad i'w groesawu i dirwedd ddeallusol Cymru

ifanc mwyaf disglair Cymru yn y sectorau ymchwil, busnes a chyhoeddus, er mwyn creu gwerth ar gyfer yr economi a'r gymdeithas; ch) darparu cyngor annibynnol a sganio'r gorwel ar draws meysydd o bob math drwy sicrhau bod gan y bobl sy'n llunio a dylanwadu ar bolisi yng Nghymru fynediad i'r arbenigedd cenedlaethol ac yn wir, bydeang, gorau; d) sicrhau cydnabyddiaeth well o ansawdd yr ysgolheictod sy'n bodoli yng Nghymru ac sy'n gysylltiedig â Chymru; ac dd) hyrwyddo buddiannau ac enw da Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.”

Er mwyn i'r Gymdeithas gyflawni ar ei chylch gwaith, mae'r Adolygiad yn argymhell y dylai'r Gymdeithas Ddysgedig gael y math o gyllid craidd a welir mewn awdurdodaethau eraill, drwy law CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y mae'r Gymdeithas a CCAUC wedi cytuno arnynt, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae cynllun 'grant cymorth' tebyg ar waith yn yr Alban i Gymdeithas Frenhinol yr Alban.

Yn olaf, mae'r Adolygiad yn cydnabod bod mäs critigol annigonol o ymchwilwyr yng Nghymru ym meysydd STEMM, ac yn cynnig “y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen uchelgeisiol i addysgu cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr yng Nghymru.” Mae'r Adolygiad yn argymhell sefydlu Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig mewn partneriaeth gyfartal driphlyg rhwng Llywodraeth Cymru, y Brifysgol lle bydd y myfyriwr ymchwil wedi'i leoli, a chyllidwr arall naill ai o'r sector preifat, cyhoeddus neu'r trydydd sector, ac y gellid gweinyddu'r cynllun gan y Gymdeithas Ddysgedig.

Cyfres Seminarau Cyfnewid Syniadau

Gwahoddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol Gymdeithas Ddysgedig Cymru i ddatblygu cyfres seminarau peilot i hyrwyddo polisi a arweinir gan dystiolaeth a chynnig cyfle i Aelodau Cynulliad ddysgu, cyfnewid a thrafod syniadau newydd gydag arbenigwyr academaidd blaenllaw. Mae Cyfres Seminarau Cyfnewid Syniadau'n trafod pa mor uchelgeisiol y dylai polisi Llywodraeth Cymru fod o ran:

- ▶ Strategaeth economaidd, cyllid a seilwaith;
- ▶ Tyfu ac amrywio cymdeithas sifil yng Nghymru;
- ▶ Dyfodol ynni clyfrach i Gymru.

Mae'r seminarau'n fforwm i gyflwyno a lledaenu canfyddiadau ymchwil mewn modd hygyrch ar faterion sy'n berthnasol i raglen busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y mynychwyr yn cynnwys ACau a'u staff cymorth; ymchwilwyr y pleidiau, staff Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad a staff Comisiwn y Cynulliad.

Hyrwyddo Ymchwil

Mae Cymru'n gweithredu mewn amgylchedd byd-eang cystadleuol. Eto i gyd mae ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth ryngwladol o'i rhagoriaeth ysgolheigaidd yn wan ac nid yw'n cael ei gwerthfawrogi. Mae angen i Gymru ddatblygu ei phroffil academiaidd ar draws y sector a chyfoethogi ei henw da am ragoriaeth ymchwil, addysg ac arloesi.

Ychydig o faterion sy'n bwysicach yn y gystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr da, cyllid ymchwil a staff ymchwil mewn cyfnod o her economaidd a gwleidyddol.

Gyda hyn mewn cof mae'r Gymdeithas wedi esgor ar amrywiaeth o fentrau i gynyddu proffil academiaidd cenedlaethol a rhyngwladol Cymru drwy arddangos rhagoriaeth ymchwil ac addysg yn well. Rydym ni'n gwneud hyn ar ran y sector cyfan, ac nid sefydliadau unigol.

Yn ogystal â threfnu symposia a darlithoedd rhyngwladol achlysurol, mae gweithredu'r strategaeth hon wedi cynnwys hyrwyddo amgylchedd ymchwil Cymru yn y cyfnodolyn Science, sy'n cyrraedd cynulleidfia ryngwladol o dros hanner miliwn o ddarllenwyr bob wythnos.

Hefyd comisiynodd y Gymdeithas Uned Polisi Coleg King's yn Llundain i ymgymryd ag adolygiad annibynnol ar Impacts of Academic Research from Welsh universities. Mae'r dadansoddiad yn ystyried, am y tro cyntaf, pob astudiaeth achos effaith a gyflwynwyd o un wlad yn y DU, gan gynnig golwg fanwl ar effaith prifysgolion Cymru. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF 2014) y DU oedd yr asesiad cenedlaethol cyntaf o ymchwil academiaidd a werthusodd effaith anacademaidd yn ffarfiol.

Ar draws yr holl gyflwyniadau, roedd Cymru'n gadarn gyda 49% ar 4* (rhagorol) yn yr is-broffil effaith, sy'n rhagori ar ▶

gyfartaledd y DU o 44%. Barnwyd bod 37% arall o'r effaith a gyflwynwyd o Gymru yn 3* (effaith sylweddol iawn).

Roedd 37% o'r astudiaethau achos yn adrodd am effeithiau'n benodol yng Nghymru. O fewn y sampl hwn, roedd effaith ar bolisi a chymdeithas yn amlwg, gyda'r mwyafrif yn disgrifio cyfraniadau i ddiwygio polisi. Mae'r adolygiad yn cadarnhau'r budd uniongyrchol a ddaw o ymchwil academaidd i Gymru, i ddiwylliant a threftadaeth y wlad, i'w heconomi, addysg gyhoeddus a chydlynid cymdeithasol.

Roedd cyrhaeddiad daearyddol y gweithgareddau effaith ymchwil o Gymru'n cynnwys 102 o wledydd a chwe chyfandir. Gwelwyd y gweithgaredd mwyaf

y tu allan i Gymru ym meysydd gwyddoniaeth, peirianeg, gweithgynhyrchu a diwydiant, gyda 42% o'r holl gyfeiriadau at effaith ar y sector wedi'u lleoli yn y DU a 45% yn rhyngwladol.

Mae gan ymchwil yng Nghymru gyrhaeddiad byd-eang, ac mae addysg uwch yng Nghymru'n parhau'n effeithlon dros ben.



Hyrwyddo dysg ac ysgolheictod

Fel rhan o'i chenhadaeth i hyrwyddo ysgolheictod a dysg ar draws Cymru, cefnogodd neu trefnodd y Gymdeithas 40 o ddiwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel rhan o'i chenhadaeth i hyrwyddo ysgolheictod a dysg ar draws Cymru, cefnogodd neu trefnodd y Gymdeithas 40 o ddiwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Eleni lanswyd ein Darlithoedd Partneriaeth, a gynhelir gan brifysgolion Cymru a'u trefnu ar y cyd â'r Gymdeithas.

Traddodwyd y Ddarlith Partneriaeth gyntaf gan yr Athro Margaret MacMillan ym Mhrifysgol Bangor ym mis Rhagfyr 2016. Roedd y ddarlith, â'r teitl 'David Lloyd George: The Peacemaker' yn nodi canmlwyddiant penodi David Lloyd George yn Brif Weinidog.

Cynhaliwyd yr ail ddarlith yn y gyfres ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Ebrill 2017. Roedd y ddarlith, gan yr Athro Arglwydd Martin Rees KT OM FRS FREng FMedSci HonFLSW, y Seryddwr Brenhinol, yn ystyried 'The world in 2050 – and beyond'. Derbyniwyd yr Arglwydd Rees hefyd yn ffurfiol yn Gymrawd Er Anrhydedd y Gymdeithas yn y digwyddiad. Gellir gweld recordiad o'r ddarlith yma:

www.soundcloud.com/cardiffuni/the-world-in-2050-and-beyond.

Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys:

- ▶ Darlith gan Syr Michael Atiyah ym Mhrifysgol Abertawe
- ▶ Digwyddiadau i gefnogi Soapbox Science yn Abertawe a Chaerdydd, gan ddod â menywod amlwg mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o bob rhan o Gymru a thu hwnt i'r strydoedd i siarad am eu hymchwil
- ▶ Darlith Hamlyn gyntaf 2016 a draddodwyd gan y Gwir Anrhydeddus Fonesig Siân Elias, GNZM, Prif Ustus Seland Newydd yn 2016 mewn cydweithrediad ag Ysgol y Gyfraith Caerdydd a than gadeiryddiaeth y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, Arglwydd Prif Ustus Cymru a Lloegr.
- ▶ Darlith Goffa Menelaus y Fonesig Jocelyn Bell Burnell ym mis Mawrth 2017 ar Seryddiaeth a Barddoniaeth ▶



4
days



16,341
visitors



21%
aged 16-24

- ▶ Cefnogi amrywiol weithgareddau yng Ngŵyl Gwyddoniaeth Prydain 2016, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe
- ▶ Cyfres fer o ddarlithoedd ar draws y genedl yn arddangos ymchwil diweddar sy'n berthnasol i astudiaethau am Gymru, gan gynnwys diwinyddiaeth, diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru a'r ymateb yn y Gymru Gymraeg i waith Sigmund Freud.

Bu'r Gymdeithas yn cefnogi digwyddiadau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Cynhadledd Flynnyddol Academia Europaea ym mis Mehefin 2016, a chynhadledd y North American Association for the Study of Welsh Culture and History (NAASWCH) ym Mhrifysgol Harvard ym mis Gorffennaf 2016. Roedd y Gymdeithas hefyd yn brif noddwr yng Ngŵyl Gwyddoniaeth Prydain yn Abertawe ym mis Medi 2016.

Ceir manylion y rhaglen o ddigwyddiadau'r gorffennol a'r dyfodol yma

www.learnedsociety.wales/events

Cymru, y DU ac Ewrop

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Gymdeithas wedi parhau i gryfhau ei pherthynas gyda chwaer academiâu yn y DU ac yn benodol gydag academiâu yn Ewrop. Mae hyn wedi cynnwys prosiectau ar y cyd gyda'r Academi Brydeinig a'r Gymdeithas Frenhinol, cyd-gyflwyniadau gyda Chymdeithas Frenhinol Caeredin a phresenoldeb yng nghyfarfodydd (cyntaf erioed) y saith Academi yn y DU.

Mae'r Academiâu wedi cydweithio i gyhoeddi nifer o ddatganiadau ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mewn ymateb i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

- ▶ Ym mis Gorffennaf 2016 ymunodd y Gymdeithas â'r Academi Gwyddorau Meddygol, yr Academi Brydeinig, yr Academi Beirianneg Frenhinol, y Gymdeithas Frenhinol, Cymdeithas Frenhinol Caeredin, ac Academi Frenhinol Iwerddon i gyhoeddi datganiad ar y cyd yn amlygu'r angen i gynnal ymchwil a chydweithio gyda'r UE ar ôl y Refferendwm.
- ▶ Yn ddiweddarach yn yr un mis cyhoeddodd 30 o academiâu cenedlaethol Ewrop ddatganiad ar y cyd, 'Science is global', i annog llywodraethau a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth i gyflenwi ymchwil, ysgolheictod ac arloesi ar draws y cyfandir er budd cymdeithas. Cefnogodd y Gymdeithas hefyd 28ain Gynhadledd Flynyddol yr Academia Europaea a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2016, oedd yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithio traws-Ewropeaidd a chydweithio ar gyfer ymchwil.



- ▶ Ym mis Chwefror bu'r Gymdeithas yn cydweithio gyda'r Academi Brydeinig a Chymdeithas Frenhinol Caeredin i ddatblygu cyflwyniad ar y cyd i Bwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi: Brexit: Devolution. Gweithiodd y Gymdeithas hefyd gydag Academiâu eraill i lywio Science priorities for Brexit, datganiad gan Stephen Metcalfe AS, Cadeirydd y Pwyllgor Seneddol a Gwyddonol, a Phwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin.
- ▶ Ar y cyd â'r 7 academi genedlaethol arall yn y DU cyhoeddodd y Gymdeithas ddatganiad ar y cyd mewn ymateb i benderfyniad y Llywodraeth i danio Erthygl 50 fel rhan o Hysbysiad Ymadael yr Undeb Ewropeaidd.

Hefyd cyflwynodd y Gymdeithas dystiolaeth i nifer o ymholiadau Pwyllgor gan gynnwys Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Dethol UE yr Arglwyddi, Pwyllgor Dethol y Trysorlys a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol.

- ▶ Hefyd ysgrifennodd Llywydd y Gymdeithas at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn annog y dylai llywodraeth y DU weithio i gynnal mynediad ymchwilwyr

y DU at raglenni Ymchwil yr UE, a bod y lefel o gymorth ariannol i ymchwil y DU o leiaf yn cael ei gynnal ar y lefel gyfredol.

- ▶ Cyfrannodd y Gymdeithas hefyd nifer o ddarnau barn i'r Western Mail a Walesonline.co.uk, yn edrych ar yr heriau ehangach mae Cymru'n eu hwynebu wrth i'r DU dynnu allan o'r UE, amcanion Cymru ar gyfer y trafodaethau a'r effaith bosibl o ran cyllid ymchwil, cydweithio a symudedd ymchwilwyr a myfyrwyr.

Cyngor annibynnol

Gan dynnu ar arbenigedd ei Chymrodyr mae'r Gymdeithas wedi darparu ymatebion a sylwadau ar nifer o feysydd polisi llywodraeth y DU a Chymru, gan gynnwys Bil Cymru (2016), y strategaeth addysg uwch, y Gymraeg, strategaeth ddiwydiannol y DU, a'r ail Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF2021)

Trefnodd yr Athro John Wyn Owen a'r Athro Stephen Palmer grŵp gorchwyl a gorffen o Gymrodyr i ddatblygu ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Ebrill 2017); mae'r gwaith hwn yn parhau.

Gwahoddwyd Prif Weithredwr y Gymdeithas yr Athro Peter Halligan i ymuno â Phanel Ymgynghorol adolygiad yr Athro Graeme Reid o Ymchwil ac Arloesi

a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y cryfderau, y bylchau a photensial yn y dyfodol i gynnal a thyfu gweithgaredd ymchwil ac arloesi cryf yng Nghymru.

Mae rhagor o fanylion am sylwadau a chyflwyniadau'r Gymdeithas i'w gweld ar wefan y Gymdeithas.


Adolygiad Ariannol

Mae'r cyllid cychwynnol hael a'r gofod a ddarperir gan Brifysgol Cymru wedi parhau'n elfen bwysig o incwm ariannol y Gymdeithas yn 2016/17.


I gydnabod pwysigrwydd strategol cael amrywiaeth o ffrydiau cyllid a'r angen i dyfu ôl troed o weithgareddau a chynrychiolaeth ar draws Cymru, mae'r Gymdeithas wedi sicrhau ffynonellau ychwanegol, i ddarparu sicrwydd ariannol angenrheidiol dros y tymor hir a galluogi'r Gymdeithas i ddatblygu ac ehangu ei rhaglen dros y blynyddoedd nesaf.

Cafwyd cymorth ariannol gan bob Prifysgol yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, gan dderbyn cyfanswm o £220,000. Ym mhob achos, caiff y grantiau a ddyferir eu trin, at ddibenion cyfrifyddu ac adrodd, fel cyfraniad at gostau craidd y Gymdeithas ac yn rhan o'i chronfeydd anghyfyngedig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cymhelliad mae'r Gymdeithas a'r Prifysgolion dan sylw yn ei rannu, sef y dylai'r Gymdeithas barhau'n annibynnol, a chael ei gweld yn annibynnol.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi parhau i elwa o'r cymorth hael mewn da gan holl Brifysgolion Cymru a chyrrff eraill sydd wedi darparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn yn ddi-dâl. Mae Prifysgol Abertawe yn parhau i letya gwefan y Gymdeithas, ac mae archwilwyr y Gymdeithas, Pricewater-houseCoopers, wedi ymrwymo'n hael i ddarparu gwasanaethau archwilio i'r gymdeithas ar sail pro bono.



Gwariant Blwyddyn Ariannol



Llywodraethu

Ar ôl derbyn cefnogaeth gref gan y Gymrodoriaeth, ail-etholwyd Syr Emyr Jones Parry GCMG FInstP FLSW yn Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru am ail dymor (o fis Mai 2017 hyd at fis Mai 2020). Ar ôl saith blynedd o wasanaeth, gadawodd Is-Lywydd cyntaf y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yr Athro M. Wynn Thomas OBE FEA FLSW FBA a'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf yr Athro John Tucker MAE FBCS FLSW eu swyddi.

O fis Mai 2017, ymgymerodd yr Athro David Boucher â rôl Is-Lywydd y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Athro Alan Shore â rôl Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas; byddant yn gwasanaethu tan fis Mai 2020.

Cyngor y Gymdeithas

Dyfarwyd Siarter Brenhinol i'r Gymdeithas ar 28 Medi 2015. O ganlyniad i dderbyn Siarter Brenhinol, mae'r Gymdeithas wedi'i hymgorffori fel Elusen Siarter Brenhinol (1168622). Yn dilyn y trawsnewid ac ymgorffori'n Elusen Siarter Brenhinol, newidiwyd statws cwmni cyfyngedig y Gymdeithas i fod ynghwsg ar 5 Awst 2016. Dogfennau llywodraethu cyfredol y Gymdeithas yw ei Siarter Brenhinol a'i his-ddeddfau. Y rhain, ynghyd â Rheoliadau'r Gymdeithas yw offerynnau llywodraethu'r Gymdeithas ers mis Awst 2016.

Cyngor y Gymdeithas

Cyngor y Gymdeithas
Mae'r Siarter yn darparu mai corff llywodraethu'r Gymdeithas yw y Cyngor ac y dylid breinio ynddo lywodraeth a rheolaeth y Gymdeithas a'i materion, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth y Siarter, yr is-ddeddfau a Rheoliadau (Eitem 7.1).

Mae hyn yn cynnwys pennu gweithgareddau addysgol y Gymdeithas, defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, hydaledd y Gymdeithas a diogelu ei hasedau, yn ogystal â sicrhau bod yr holl faterion sy'n ymwneud â chyfrifon a gweithdrefnau ariannol yn cael eu gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae aelodau o'r Cyngor yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen at ddiben cyfraith elusen.

Swyddogion

Llywydd

Syr Emyr Jones Parry GCMG FInstP FLSW yw Lywydd y Gymdeithas

Is-Lywydd

- ▶ Yr Athro Ole Petersen CBE FMedSci MAE FLSW FRS (Gwyddoniaeth, Technoleg a Meddygaeth)
- ▶ Yr Athro David Boucher FRHist FAcSS FLSW (Y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)

Trysorydd

- ▶ Yr Athro John Wyn Owen CB FRSPH FLSW

Ysgrifennydd Cyffredinol


- ▶ Yr Athro Alan Shore FInstP FLSW

Noddwr Brenhinol


Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru, yn raslon i ddod yn Noddwr Brenhinol am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd.

Cipolwg ar y Gymrodoriaeth


Y gyfran o Fenywod yn y Gymrodoriaeth



Cymrodryr y Celfyddydau, Dyniaethau Gwyddorau Cymdeithasol a Gwasanaeth Cyhoeddus



Cymrodryr STEM



Mae'n galonogol ein bod eleni'n parhau gyda'r cynnydd yn y gyfran o Gymrodryr benywaidd yn y Gymdeithas a bod 35% o'r Cymrodryr newydd a etholwyd yn 2016/17 yn fenywod.

Erbyn heddiw mae 18% o Gymrodryr y Gymdeithas, a 25% o aelodau'r Cyngor yn fenywaidd

